Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tanycastell
# Harlech
# Gwynedd
# LL46 2UE

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Tanycastell wedi ei lleoli yn nhref Harlech, yng Ngwynedd ac yn gwasanaethu'r dref a'r ardal wledig gyfagos. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn llawn amser ar ddechrau'r mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Ar hyn o bryd, mae 10 disgybl rhan amser yn yr ysgol yn dilyn eu penblwydd yn dair oed a 71 o ddisgyblion amser llawn. Addysgir y disgyblion gan ddwy athrawes llawn amser a phedair athrawes rhan amser. Mae tair cymhorthydd rhan amser ac un cymhorthydd amser llawn yn yr ysgol.

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Daw 42% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae canran y disgyblion o gefndir ethnig yn fychan iawn ac yn is na chanran yr awdurdod lleol.

Mae o gwmpas 17% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae hyn yn is na'r canran sirol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn datgan nad yw'r ardal yn un arbennig o ffyniannus. Mae tua 19% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol ychwanegol ac mae hyn yn ychydig yn is na'r ffigwr cenedlaethol o 21.2%. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion ychwanegol. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiad parhaol ac un gwaharddiad dros dro a gofnodwyd yn y 12 mis cyn yr arolygiad.

Bu'r pennaeth yn athrawes yn yr ysgol cyn ei phenodi i'w swydd bresennol ym Medi 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Tanycastell yn 2012-2013 yn £3,677 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol Gynradd Tanycastell yn safle 67ain o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais;
- bod yr ysgol yn cynnig ystod eang o wahanol brofiadau diddorol;
- bod ansawdd yr addysgu'n dda;
- bod perthynas dda rhwng y rhieni, yr ysgol a'r gymuned leol; ac oherwydd
- y defnydd effeithiol a wneir o'r amgylchedd dysgu;

Fodd bynnag:

- mae safonau a medrau'r mwyafrif o ddisgyblion yn is na'r lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig;
- nid oes digon o her bob amser i symud yr holl ddisgyblion ymlaen i gyflawni'n well; ac
- er bod y broses hunanarfarnu wedi'i sefydlu ers hir amser, nid yw wedi ei gwreiddio'n ddigonol i godi safonau disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y cynllunio strategol yn ffocysu'n benodol ar godi safonau disgyblion a lefelau darpariaeth;
- bod ganddi gynlluniau datblygu o ansawdd da sy'n cynnwys blaenoriaethau priodol;
- bod yr ysgol yn gwybod yn dda am ei pherfformiad ei hun;
- bod ethos yr ysgol yn cefnogi agweddau positif tuag at ddysgu;
- bod diwylliant cryf o gydweithio i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel; a bod
- y rhieni a'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol at waith yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau ysgrifennu estynedig a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Datblygu strategaethau addas i ymateb i dangyflawni bechgyn a sicrhau bod anghenion y disgyblion mwyaf abl yn cael eu diwallu

A3 Parhau i ddatblygu y defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu gan sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol

A4 Monitro datblygiad medrau disgyblion ar draws holl agweddau’r cwricwlwm yn gyson a thrwyadl

A5 Cryfhau gweithdrefnau hunanarfarnu yr ysgol i sicrhau bod yr anghenion gwella yn cael eu hadnabod yn glir

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau disgyblion sy'n dechrau'r ysgol yn dair blwydd oed yn is na'r hyn a ddisgwylir. Mae'r mwyafrif yn cyrraedd y deilliannau priodol am eu hoedran a'u man cychwyn erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Yng nghyfnod allweddol dau, mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â'u tasgau yn llwyddiannus ac yn gwneud cynnydd cyson yn erbyn nodau'r gwersi. Dangosant agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac maent yn awyddus i lwyddo. Mewn ychydig o wersi, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd oherwydd nad yw'r tasgau yn ddigon heriol.

Ar draws yr ysgol, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion alw i gof ddysgu blaenorol yn dda ac maent yn gwneud defnydd effeithiol o hyn mewn gwersi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn datblygu'n briodol.

Er bod y mwyafrif o'r disgyblion yn hanu o gartrefi lle siaredir Saesneg fel iaith gyntaf, maent, o oed cynnar, yn cyfathrebu'n effeithiol ar lafar yn Gymraeg. Mae medrau llawer o'r disgyblion yn yr iaith Gymraeg yn dangos cynnydd priodol. Maent yn gwrando'n astud, yn siarad yn glir ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae llawer yn darllen â phwrpas. Fodd bynnag, mae medrau ysgrifennu ymestynnol y mwyafrif o ddisgyblion heb eu datblygu cystal ag nid ydynt yn ysgrifennu'n ymestynnol yn gyson mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn foddhaol, ond ychydig iawn sy'n defnyddio'u medrau mathemategol yn bwrpasol a chyson ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau ehangach defnyddiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn medru siarad am eu gwaith â hyder cynyddol. Mae eu hannibyniaeth fel dysgwyr a'r ffordd y maent yn gwerthuso'u gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn datblygu'n addas ac yn cael effaith bositif ar eu gwaith. Gall llawer fynegi barn mewn modd aeddfed am wahanol faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Mae medrau ymchwil y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda.

Yn 2012, mae'r canran o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, a Chymru, ym mhob maes. Mae'r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim.

Yn 2012, mae'r canran o ddysgwyr a gyflawnodd y dangosydd pynciau craidd, sef Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion. O gymharu'r ysgol ag ysgolion eraill, tebyg o ran niferoedd y disgyblion â hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn y 25% uchaf o'r ysgolion hyn. Dros amser, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio o safbwynt y dangosydd pynciau craidd a'r pynciau craidd unigol.

Serch hynny, yn gyffredinol bu'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion o'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim dros y pedair blynedd diwethaf. Ac eithrio 2012, bu perfformiad yr ysgol hefyd yn uwch na chyfartaledd y teulu dros y cyfnod hwn.

Mae'r gyfran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel yn uwch na'r disgwyl (lefel 5 neu uwch) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn sylweddol is o gymharu â chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan dros gyfnod o bedair blynedd.

Yn 2011, cyflawnodd 100% o ferched yr ysgol y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ond roedd cyflawniad y bechgyn yn llawer is oni bai am wyddoniaeth. Yn gyffredinol, gwelwyd tanberfformiad cyson gan fechgyn o'u cymharu â genethod dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol ac yn cyflawni eu targedau personol. Gan fod y nifer o ddisgyblion yn fechan, nid yw'n briodol cymharu cyflawniad y disgyblion sy'n derbyn cinio am ddim â gweddill y disgyblion.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac maent yn cyflawni'n gyson dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut y gallant gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol ac ymarfer eu cyrff trwy wersi a gweithgareddau ymarfer corff.

Mae bron pob un disgybl yn ddysgwr bodlon sy'n mwynhau bywyd yr ysgol. Maent yn mwynhau eu gwersi ac yn manteisio ar gyfleoedd i leisio barnau synhwyrol am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae ymddygiad disgyblion yn dda ar draws yr ysgol ac mae pob un yn gwrtais iawn wrth ymateb i oedolion a chyfoedion. Mae'r holl ddisgyblion yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd ac i unrhyw ddisgyblion ag anghenion arbennig.

Mae'r gyfradd bresenoldeb, sef tua 95.2%, yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran nifer disgyblion â hawl i ginio am ddim. Mae hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae bron pob disgybl yn brydlon.

Mae aelodau y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol trwy wneud penderfyniadau pwrpasol am fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion hyn yn mwynhau eu cyfrifoldebau ac maent yn sylweddoli bod ganddynt lais cryf i ddylanwadu ar fywyd a gwaith dyddiol yr ysgol. Maent yn weithgar ac yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau megis amgylchedd yr ysgol, gweithgareddau ac adnoddau. Mae ymroddiad yr holl ddisgyblion i'r pentref a'r gymuned leol yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu priodol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn cydweithio'n fwriadus i gynllunio rhaglenni gwaith manwl. Mae hyn yn cynnwys cynllunio gweithgareddau ymarferol o

fewn yr ysgol ei hun, fel y profiad o ail-fyw diwrnod yn amser “streic fawr y Penrhyn”, ac ymweliadau addysgol diddorol tu allan i’r ysgol i ennyn diddordeb bechgyn sy’n tanberfformio. Serch hynny, nid yw’r cynllunio yn adnabod yn ddigon cyson gyfleoedd i herio’r disgyblion mwy abl a dawnus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae’r ysgol yn gwneud defnydd cadarn o ystod addas o ardaloedd dysgu, gan gynnwys yr ardal tu allan, i gyfoethogi’r medrau.

Mae’r ddarpariaeth i sicrhau bod y disgyblion yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn gadarn. Yn gyffredinol, mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a chyfathrebu yn addas. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu’n estynedig yn y Saesneg na’r Gymraeg. Nid yw medrau rhifedd wedi eu hymgorffori yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn datblygu’n gadarn. Mae’r ysgol yn sicrhau bod darpariaeth effeithiol i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion am faterion dinasyddiaeth fyd eang drwy waith amrywiol yn ymwneud â gwledydd eraill fel Affrica, Awstralia, Gwlad yr Ia a Botswana. Mae ystod da o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o’r disgyblion o bwysigrwydd datblygiadau cynaliadwy gan gynnwys ailgylchu ac arbed egni. Mae gwaith y ‘Grŵp Gwyrdd’ yn adlewyrchu ymdrechion cyson yr ysgol i gefnogi prosiectau ECO. Defnyddir addoli ar y cyd yn briodol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion sy’n ymwneud â thegwch ac anghydraddoldeb.

Mae’r ffocws ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg yn llwyddiannus. Rhoddir cyfleoedd cynhwysfawr i’r disgyblion ddysgu am ddiwylliant eu hardal leol a Chymru gyfan.

**Addysgu: Da**

Mae llawer o gryfderau i’r addysgu ar draws yr ysgol. Mae gan yr athrawon wybodaeth gyfredol dda am y cwricwlwm ac am ddulliau addas o ddatblygu medrau’r disgyblion. Mae perthynas waith werthfawr yn bodoli rhwng yr oedolion a’r disgyblion yn y dosbarthiadau. Mae holi addas yn aml yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion mewn amgylchedd dysgu cefnogol.

Mae cyflwyniadau a chyflymder gwersi yn effeithiol. Mae cydbwysedd priodol rhwng arwain y dysgu a datblygu annibyniaeth y disgyblion. Fodd bynnag, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith ar adegau yn cyfyngu cyfleoedd i’r disgyblion mwyaf abl i ymestyn eu gwaith a datblygu eu medrau allweddol.

Mae pob un o’r staff addysgu, gan gynnwys y staff cymorth, yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad i gefnogi’r dysgu yn effeithiol iawn.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu i’w gweld ar waith ar draws yr ysgol. Fodd bynnag nid yw’r defnydd ohonynt yn gyson o ddosbarth i ddosbarth. Mae’r athrawon yn rhoi awgrymiadau ac anogaeth dda ar lafar i bob disgybl ar gyfer gwella’u gwaith. Mae rhai agweddau da i’w gweld yn y marcio a cheir enghreifftiau o sylwadau sy’n gymorth iddynt wybod sut i wella eu gwaith. Lle mae diffygion, nid yw’r marcio yn ddigon heriol i ymestyn y disgyblion mwyaf abl.

Mae’r broses o osod targedau ar gyfer disgyblion unigol yn datblygu’n briodol drwy’r ysgol. Mae trefniadau addas ar gyfer lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion yn bodoli o fewn yr ysgol ac yn y clwstwr. O ganlyniad, mae’r ysgol yn adnabod tangyflawniad yn fuan ac yn ymateb yn briodol.

Mae’r adroddiad i rieni yn bodloni’r gofynion ac yn cynnwys gwybodaeth briodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned groesawgar. Mae’r staff i gyd yn rhannu cyfrifoldeb am ofal a chymorth ac yn cefnogi gweithdrefnau llwyddiannus ar gyfer ymddygiad disgyblion. Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

Anogir disgyblion i fwyta’n iach ac mae cyfleoedd cyson ganddynt i wella eu ffitrwydd a’u hiechyd. Mae’r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb yn dda.

Mae’r disgyblion yn derbyn cefnogaeth werthfawr gan staff yr ysgol a swyddogion allanol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol gydag asiantaethau proffesiynol allanol.

Mae’r strwythurau ar gyfer cefnogi disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig wedi eu gwreiddio’n effeithiol. Defnyddir gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y flwyddyn i osod targedau priodol yn y cynlluniau addysg unigol. Mae’r cynlluniau yn cael eu harfarnu a’u diweddaru’n rheolaidd. Mae’r gweithdrefnau trwyadl ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn sicrhau eu bod yn cael mynediad i gwricwlwm llawn.

Mae trefniadau diogelu’r ysgol yn ateb gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol iawn yn yr ysgol gyda phwyslais addas ar gyfle cyfartal i bob disgybl ac ar hyrwyddo ymdeimlad o berthyn. Mae gwerthoedd yr ysgol yn arwain at werthfawrogi a dathlu gwahaniaeth yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau o ansawdd priodol sy’n cael eu defnyddio’n addas. Gwneir defnydd cynhwysfawr o’r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen. Mae’r offer mawr, cae pêl-droed a buarth yn cynnig adnoddau gwerthfawr i’r disgyblion ar gyfer dysgu a chwarae.

Mae’r arddangosfeydd yn adlewyrchu gwaith y disgyblion yn dda ac mae’r adeilad yn diwallu eu anghenion yn effeithiol. Mae’r ystafell ar gyfer plant gydag anabledd yn esiampl benodol o hyn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer codi safonau, gwarchod y Gymraeg a sicrhau lles y disgyblion. Llwydda i gyfleu’r weledigaeth honno i’r staff, y

llywodraethwyr, rhieni a’r disgyblion. Mae wedi creu tîm effeithiol gyda chyfeiriad a phwrpas i fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae’r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a chaiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio’n glir. Cyflwynwyd dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd ar gyfer sicrhau gwelliannau yn ddiweddar ond nid yw’r trefniadau hyn wedi gwreiddio’n ddigon cadarn eto i effeithio ar safonau.

Drwy eu cyfraniad yn y cyngor ysgol mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gyfranogi at ddatblygiad yr ysgol.

Cefnogir datblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon trwy system effeithiol o reoli perfformiad. Nid oes trefn ffurfiol ar gyfer rheoli perfformiad staff ategol. Serch hynny, mae’r ysgol yn sicrhau cyfleoedd iddynt ddatblygu’n broffesiynol pan fo angen yn codi.

Mae’r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ac yn eu trafod yn ofalus. Maent yn frwdfrydig ac yn datblygu ymhellach eu harbenigeddau trwy ymgyfarwyddo yn gynyddol â data cyrhaeddiad disgyblion a datblygu eu gwybodaeth bynciol drwy drafodaethau gyda’r staff.

Mae nifer o flaengareddau lleol a chenedlaethol yn datblygu’n briodol ac yn cyfrannu’n bositif at godi safonau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae’r ysgol wedi datblygu polisi a phrosesau hunanrfarnu sy’n dylanwadu’n gynyddol ar y Cynllun Datblygu Ysgol. Fodd bynnag, er bod y prosesau hyn yn cynnwys adolygiad o bob agwedd ar fywyd ysgol, nid yw’r hunanarfarniad yn ddigon arfarnol i sicrhau bod anghenion gwella’r ysgol yn glir.

Mae’r trefniadau hunanarfarnu yn gwneud defnydd priodol o wybodaeth, gan gynnwys data diwedd cyfnod ag ystod o dystiolaeth uniongyrchol i gynllunio ar gyfer gwella. Rhoddir sylw cyson i dystiolaeth am ansawdd yr addysgu a’r dysgu a gesglir drwy arsylwadau dosbarth. Serch hynny, nid yw’r dystiolaeth sy’n bwydo’r adroddiad hunanarfarnu bob amser yn ddigon cadarn ac nid yw’r llywodraethwyr yn cael cyfle digonol i ddylanwadu ar gynnwys yr adroddiad a herio canfyddiadau’r broses yn briodol. Mae’r hunanarfarniad wedi arwain at gynllun datblygu newydd sy’n cynnwys blaenoriaethau sy’n ffocysu’n briodol ar godi safonau disgyblion a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r meini prawf llwyddiant yn briodol ac yn heriol. Mae’r cynllun yn nodi’n glir yr adnoddau sydd wedi eu clustnodi ar gyfer y gweithgareddau ac mae’r holl staff yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau mewn perthynas â’u gweithredu.

Mae rhwydweithiau o arfer broffesiynol y clwstwr, y rhaglen hyfforddiant sirol a’r cytundeb cynradd uwchradd yn dylanwadu’n effeithiol ar arferion a safonau’r ysgol yn enwedig wrth ddatblygu a gwella llythrennedd a chyfathrebu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau defnyddiol ac effeithiol sy’n cyfrannu’n dda at wella safonau addysgol y disgyblion.

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac eraill yn gadarn ac mae'r ysgol wedi elwa'n sylweddol o gyfraniadau ariannol gan y gymdeithas rhieni ac athrawon.

Mae'r cysylltiadau trosglwyddo effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol yn galluogi disgyblion i gael eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae rhain yn cynnwys prosiectau trosglwyddo, cyfnod anwytho ac ymweliadau gan staff a disgyblion.

Ceir trefniadau priodol ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau cyfnod allweddol 2 gyda'r ysgolion cynradd ac uwchradd lleol. Mae trefniadau tebyg ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen wedi deillio o waith cymuned ddysgu broffesiynol ar draws ysgolion y dalgylch yn dechrau cael effaith ar safonau.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae digon o staff amser llawn a rhan amser ar gael i ymdrin yn briodol â phob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol ac fe gânt eu rheoli'n effeithiol. Cynigir cyfleoedd digonol i'r staff fynychu cyrsiau hyfforddi addas. Mae'r corff llywodraethol yn rheoli a monitro adnoddau ariannol yr ysgol yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn llwyr gysylltiedig â'r cynllun datblygu newydd. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'i chyllideb i hyrwyddo addysg effeithiol ac yn ddiweddar wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cymorthyddion sydd wedi cael effaith bositif ar gyflawniad disgyblion.

Mae staff yr ysgol wedi gweithio'n ddiwyd i greu amgylchedd deniadol. Mae safon yr adeilad yn dda ac ynghyd â'r tir o gwmpas, yn darparu amgylchedd dysgu symbylus i'r disgyblion. Mae adnoddau eang ac addas yn yr ystafelloedd dosbarth.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian o ystyried y cynnydd a'r safonau ar draws yr ysgol.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae’r tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol yn annibynadwy gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn fechan iawn.

Ar ddiwedd 2012, roedd cyflawniad disgyblion diwedd Cyfnod Sylfaen yr ysgol yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy’n cyflawni deilliant 5 mewn cyfuniad o sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol ac amrywiaeth diwylliannol) yn is na’r teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol yn y 25% isaf yn neilliant 5 a 6 ond yn y 25-50% yn neilliant 6 mewn medrau iaith.

Mae tueddiadau mewn cyflawniad disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy’n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o’r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn gwella dros gyfnod o bedair blynedd ond ychydig yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ac yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn 2012. Mae’r patrwm hefyd yn anwastad dros gyfnod ar gyfer y pynciau ar wahân. Yn 2011, cyflawnodd 100% o ferched yr ysgol y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ond roedd cyflawniad y bechgyn yn llawer is oni bai am wyddoniaeth. Llwyddodd 100% o fechgyn i gyrraedd lefel 4 mewn gwyddoniaeth. Mae’r canran sy’n cyrraedd lefel yn uwch na’r disgwyl (lefel 5) yn sylweddol is o gymharu â chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan dros gyfnod o bedair blynedd.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 50% isaf dros bedair blynedd ym mhob pwnc craidd.

Gan fod y nifer o ddisgyblion mor fechan, nid yw’n deg cymharu cyflawniad y disgyblion sy’n derbyn cinio am ddim a chyflawniad gweddill y disgyblion. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol ymhob blwyddyn ysgol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i holiaduron y disgyblion**

Mae'r pedwar deg un ymateb a gafwyd gan y disgyblion yn gadarnhaol iawn:

Mae pob un o'r farn:

- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i aros yn iach;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a chyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd.

Mae bron pob un o'r farn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- fod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Er bod nifer yr ymatebion yn fechan, mae ymatebion disgyblion Ysgol Tanycastell yn cymharu'n ffafriol gydag ymatebion cyfartalog disgyblion ar draws Cymru ym mwyafrif y datganiadau.

**Ymateb i holiaduron y rhieni**

O'r 14 ymateb a gafwyd oddi wrth rieni, mae pob un o'r farn:

- fod yr addysgu'n dda;
- fod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol hon;
- cafodd eu plentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r farn:

- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod y staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau;
- bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;

- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- bod eu plentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae ychydig iawn yn anghytuno.

Mae ymatebion rhieni Ysgol Tanycastell yn cymharu'n ffafriol gydag ymatebion cyfartalog rhieni ar draws Cymru ym mhob datganiad.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Carolyn Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Davies | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Richard Carbis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Annwen Parry Williams | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.